Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

# Adroddiad ar Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)

Chwefror 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddMCD**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddMCD@cynulliad.cymru**
Twitter: **@ SeneddMCD**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

# Adroddiad ar Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)

Chwefror 2018

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2016 i cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol, deddfwriaethol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Mick Antoniw AC**
Llafur Cymru
Pontypridd

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mandy Jones AC**
UKIP Cymru
Gogledd Cymru



**Dai Lloyd AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**David Melding AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor wrth graffu ar y Bil:



**Nathan Gill AC**
UKIP Cymru
Gogledd Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion ..... 5**

**1. Cyflwyniad ..... 7**

Cylch gwaith y Pwyllgor ..... 7

Cyflwyno'r Bil ..... 7

Y cefndir ..... 8

**2. Cymhwysedd deddfwriaethol ..... 10**

Ein barn ..... 11

**3. Sylwadau cyffredinol ..... 13**

Cydgrynhoi ..... 13

Ein barn ..... 14

Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth. ..... 15

Ein barn ..... 16

**4. Sylwadau penodol ar y Bil ..... 17**

Adran 6 – Diswyddo neu benodi swyddog landlord cymdeithasol cofrestredig 17

Adran 8 – Penodi rheolwr ar landlord cymdeithasol cofrestredig ..... 17

Ein barn ..... 17

Adran 13 – Gwaredu tir: cydsyniad ..... 18

Ein barn ..... 18

Atodlen 2 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol ..... 18

Ein barn ..... 19

**5. Sylwadau ar bwerau penodol i wneud is-ddeddfwriaeth ..... 20**

Y cefndir ..... 20

Adran 5 – Cyfarwyddydau ynghylch hysbysiadau sydd i'w rhoi i Weinidogion Cymru ..... 20

Adran 14 – Gwaredu tir: hysbysu ..... 20

Ein barn ..... 21

Adran 18 – Pŵer i wneud diwygiadau bellach ..... 22

Ein barn ..... 23

Atodlen 1 - Cyfyngiad ar aelodaeth awdurdodau lleol o fwrdd a hawliau pleidleisio ..... 24

Ein barn ..... 26

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog, yn ystod dadl Cyfnod 1, yn cyfiawnhau'r rhesymau dros gyflwyno Bil sy'n diwygio deddfwriaeth bresennol y DU yn hytrach na Bil Cydgrynhoi, annibynnol. ........ Tudalen 15

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yn ofalus y posibilrwydd o gydgrynhoi'r gyfraith yn y maes hwn y tro nesaf y bydd cyfle i wneud hynny. ........ Tudalen 15

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant er mwyn nodi ar wyneb y Bil y bydd unrhyw benodiadau a wneir o dan adrannau 6 neu 8 yn dod i ben pan gydymffurfir â'r gofyniad perthnasol neu phan fydd y methiant perthnasol wedi'i ddatrys gan fodloni Gweinidogion Cymru. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 13(2) o'r Bil i'w gwneud yn glir mai dim ond mewn perthynas â Chymru y mae adran 81 o *Ddeddf Tai 1988* yn cael ei diddymu. ........ Tudalen 18

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ceisio cadarnhad gan Lywodraeth y DU ynghylch yr amserlenni ar gyfer dileu cyfeiriadau at Loegr yn *Neddf Tai 1988*. ........ Tudalen 18

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant fel ei bod yn glir ar wyneb y Bil bod y diffiniad newydd o "notify" i'w fewnosod yn adran 63 o *Ddeddf Tai 1996* ar ôl y diffiniad o "notice" a chyn y diffiniad o "public sector landlord". ........ Tudalen 19

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i orfodi Gweinidogion Cymru, o fewn 14 diwrnod ar ôl rhoi cyfarwyddyd o dan adran 5 neu 14, i sicrhau bod testun y cyfarwyddyd yn cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â datganiad ysgrifenedig i egluro pwrpas y cyfarwyddyd. ........ Tudalen 22

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i newid geiriad adran 18(1) o'r Bil i nodi y gellir gwneud, drwy reoliadau, unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig neu ganlyniadol sydd eu hangen ym marn Gweinidogion Cymru at ddibenion unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir yn y Bil neu unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan y Bil, mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth o'r fath, neu er mwyn rhoi effaith lawn i'r fath ddarpariaeth. ........ Tudalen 23

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i nodi y bydd y pwerau a ddarperir gan y ddarpariaeth hon yn dod i ben ar y dyddiad y cyhoeddir cadarnhad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael eu hailddosbarthu yn gorfforaethau preifat anariannol. ........ Tudalen 23

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i Atodlen 1 i'r Bil i ddileu'r geiriau "but the landlord may not remove an appointee until after the 2 month period expires" o adran 7C(3) i'w fewnosod i mewn i Ddeddf Tai 1996. ........ Tudalen 26

# 1. Cyflwyniad

## Cylch gwaith y Pwyllgor

**1.** Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pwyllgor) yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21[1] (ac eithrio Rheol Sefydlog 21.8[2]), ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol, deddfwriaethol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

**2.** Yn ein gwaith craffu ar Filiau a gyflwynir yn y Cynulliad Cenedlaethol ein dull yw ystyried:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR);
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd mewn is-ddeddfwriaeth;
- a yw gweithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi cael ei dewis, mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, i wneud is-ddeddfwriaeth; ac
- unrhyw fater arall sy'n berthnasol i ansawdd y ddeddfwriaeth yn ein barn ni.

## Cyflwyno'r Bil

**3.** Cyflwynwyd y **Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)** (y Bil) a'r **Memorandwm Esboniadol**[3] cysylltiedig ar 16 Hydref 2017 gan Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant. O 9 Tachwedd 2017 ymlaen, cafodd Rebecca Evans AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio (y Gweinidog), ei hawdurdodi i fod yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gan y Prif Weinidog.[4]

---

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru**, Hydref 2017

[2] Y **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** sy'n gyfrifol am swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21.8.

[3] Llywodraeth Cymru, **Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru), y Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol**, Hydref 2017

[4] **Llythyr gan y Prif Weinidog**, 9 Tachwedd 2017

**4.** Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol y Bil at y **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** ar 26 Medi 2017, ac ar 10 Hydref 2017 cyhoeddodd mai 2 Chwefror 2018 fyddai'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil.[5]

**5.** Ar 17 Hydref 2017, cawsom gopi o **lythyr** oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn cynnwys **Datganiad o Fwriad y Polisi**.

**6.** Trafodwyd y Bil yn ein cyfarfod ar 20 Tachwedd 2017, a chlywyd tystiolaeth gan y Gweinidog a dau o swyddogion Llywodraeth Cymru.

## Y cefndir

**7.** Diben y Bil yw lleihau rheolaeth llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog dros landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae hyn yn ofynnol er mwyn galluogi'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i adolygu ei ddosbarthiad o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'u hailddosbarthu fel corfforaethau preifat anariannol. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn dweud y bydd y Bil:

> "…yn diwygio neu'n dileu'r pwerau hynny a bennir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) fel rhai sy'n dangos rheolaethau llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog dros Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Bydd y newidiadau hyn yn galluogi'r ONS i ystyried ailddosbarthu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn sefydliadau'r sector preifat at ddiben cyfrifon gwladol ac ystadegau economaidd eraill yr ONS."[6]

**8.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd y Bil yn caniatáu i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig allu parhau i gael gafael ar gyllid preifat i ategu'r grantiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Os na chaiff landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eu hailddosbarthu, dywed Llywodraeth Cymru y byddai benthyca net y sector cyhoeddus yn cynyddu oherwydd y byddai benthyciadau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o farchnad y sector preifat (sef £200 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd ar hyn o bryd) yn cael eu nodi fel tâl yn erbyn cyllideb Llywodraeth Cymru a byddai cyllid ar gyfer tai yn cystadlu â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru.[7]

---

[5] Y Pwyllgor Busnes, **Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)**, Hydref 2017

[6] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.1

[7] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.8-3.9

**9.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai cymdeithasau tai yng Nghymru sydd wedi cofrestru gyda Gweinidogion Cymru o dan Ran 1 o **Ddeddf Tai 1996**[8] yw landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae hefyd yn nodi'r effaith y bwriedir i'r Bil ei chael ar dai fforddiadwy yng Nghymru:

> "Bydd cael eu hailddosbarthu i'r sector preifat yn caniatáu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fanteisio ar fenthyciadau'r sector preifat i'w galluogi i adeiladu tai cymdeithasol newydd, a pharhau i gyfrannu'n helaeth at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu 20,000 o dai fforddiadwy newydd."[9]

**10.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, un o oblygiadau'r ailddosbarthiad, oni eir i'r afael â hyn, yw y gallai'r rhaglen godi 5,040 yn llai o dai fforddiadwy newydd dros dymor presennol y Cynulliad.[10]

**11.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn pwysleisio mai'r "dull arfaethedig o ddiwygio'r drefn… yw'r lleiafswm gofynnol"[11] er mwyn caniatáu i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ailddosbarthu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

**12.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi na fydd lleihau neu ddileu rheolaethau yn golygu na chaiff y sector ei reoleiddio. Bydd y llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog yn parhau i chwarae rhan a bydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig hefyd yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r Fframwaith Dyfarniad Rheoleiddiol, sydd wedi bod ar waith ers 1 Ionawr 2017.[12]

[8] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.3.

[9] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.2.

[10] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.12

[11] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.2.

[12] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.12-3.13.

# 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

**13.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu bod gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn y Bil o dan adran 108 o Atodlen 7 i **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**, yn benodol:

- Paragraph 11: Tai; a
- Pharagraph 12: Llywodraeth leol.[13]

**14.** Roedd y Gweinidog yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol.[14]

**15.** Gofynnwyd hefyd a oedd y Gweinidog yn credu y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd unwaith daw'r rhannau perthnasol o **Ddeddf Cymru 2017** i rym. Dywedodd wrthym:

> "…we believe the Bill would be within competence under the new framework. However, it's our intention…that it would have passed Stage 1 before the Wales Act comes into force anyway. But I can provide those reassurances."[15] [16]

**16.** Pan holwyd y Gweinidog, awgrymodd ei bod yn hyderus nad yw darpariaethau'r Bil sy'n effeithio ar gyfansoddiad landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fel cymdeithasau busnes yn destun i'r eithriad ym mharagraff 4 o Ran 1 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, (yn benodol, rheoleiddio mathau o gymdeithas fusnes). Dywedodd ei bod wedi cael sicrwydd bod y Bil yn gyfan gwbl o fewn y meysydd datganoledig sy'n ymwneud â thai a llywodraeth leol.[17]

**17.** Ychwanegodd y swyddog o Lywodraeth Cymru a oedd yno gyda'r Gweinidog fod y cwestiwn a oedd y Bil yn destun i'r eithriad ynghylch rheoleiddio mathau o gymdeithasau busnes wedi cael ei ystyried. Eglurodd y swyddog pam y daethpwyd i'r casgliad nad yw'r darpariaethau yn y Bil yn destun i'r eithriad hwnnw:

---

[13] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 2.1-2.3.

[14] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [23]

[15] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [25]

[16] **Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Deddfwriaeth, Prif Ddiwrnod Penodedig**

[17] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [16]

> "The regulation of types of business association is generally considered to be at a higher level—company law, law relating to co-operative and community benefit societies. This Bill just deals with the regulation and the interaction between the Welsh Ministers and RSLs, who, whilst they may be companies or registered societies, are only individual bodies that are regulated and registered with the Welsh Ministers. It does not affect the regulation of all types of companies or all registered societies."[18]

**18.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu yr "ystyriwyd yr effaith y byddai'r Bil yn ei chael ar Hawliau Dynol".[19] Mae'n nodi:

> "Nod y Bil yw diogelu a gwarchod y cyflenwad o dai cymdeithasol. Gellid ystyried hyn fel ffordd o helpu i ddarparu tai fforddiadwy safonol i rai o aelodau mwyaf agored i niwed y gymdeithas. Er nad yw'r hawl i gartref yn un o'r hawliau dynol sylfaenol, mae'n sail i sawl un o'r Erthyglau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998…"[20]

**19.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ychwanegu y "gellid ystyried, felly, y byddai diogelu a gwarchod y cyflenwad o dai yn cael effaith gadarnhaol, o bosib, ar hawliau dynol".[21]

**20.** Esboniodd y Gweinidog fod cydymffurfiaeth â hawliau dynol yn cael ei ystyried fel rhan o brawf cymhwysedd y Bil a dywedodd ei bod yn credu y byddai'r Bil yn cael effaith gadarnhaol ar hawliau dynol. Dywedodd hefyd, er nad yw'r hawl i dŷ yn hawl dynol penodol: "it certainly underpins some of the very important human rights, such as respect for private life and family life and correspondence, freedom of assembly and association, the right to marry and found a family, and also protocol 1, article 1, the right to the peaceful enjoyment of possessions".[22]

## Ein barn

**21.** Nodwn nad oes unrhyw faterion wedi'u codi gyda'r Gweinidog ynghylch gallu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud y ddeddfwriaeth hon o dan Adran 108 ac Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

---

[18] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [17-19]

[19] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 9.20

[20] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 9.20

[21] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 9.20

[22] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [27]

**22.** Rydym hefyd yn nodi y caiff hawliau dynol eu cynnwys fel yr amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol ac yn y dystiolaeth a gafwyd gan y Gweinidog.

# 3. Sylwadau cyffredinol

## Cydgrynhoi

**23.** Mae darpariaethau'r Bil yn diwygio *Deddf Tai 1996* yn bennaf. Mae *Deddf Tai 1996* yn Ddeddf Senedd y DU. Dim ond i Gymru y mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn gynnwys, ac mae'r Ddeddf wedi ei diwygio'n helaeth yn y gorffennol.

**24.** Wrth ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil a wnaed gan **is-bwyllgor y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** (yr is-bwyllgor), **ysgrifennodd** Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru i nodi'r farn bod y Bil hwn yn colli cyfle i egluro'r gyfraith ar reoleiddio tai cymdeithasol.

**25.** Gofynnwyd i'r Gweinidog pam nad oedd Llywodraeth Cymru wedi achub ar y cyfle i ddrafftio deddfwriaeth gydgrynhoi yn y maes hwn. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "Consolidation of the legislation relating to regulation would be a really significant task. It would be hugely time consuming, and it would certainly take us a lot longer than the time that we have available to us to bring forward this particular Bill…also to do it within the derogation timescales that have been provided to us by the Treasury."[23]

**26.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Trysorlys EM wedi rhoi rhanddirymiad i Lywodraeth Cymru (cyfnod o ras cyn i'r newidiadau cyfrifyddu o ganlyniad i ailddosbarthu ddod i rym) ar sail y ddealltwriaeth y byddai deddfwriaeth i fynd i'r afael â rheolaethau llywodraeth leol a llywodraeth ganolog yn cael ei chyflwyno cyn gynted â phosibl. Bydd y rhanddirymiad yn para tan ddiwedd mis Mawrth 2018.[24]

**27.** Ymhelaethodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru ar y pwynt hwn, gan ddweud:

> "We've been working with the Northern Ireland and Scottish Governments to make sure that we will pass the test that the ONS have set us. It has been far more complex throughout the process than we expected and I would say that the timetable that we've been following has been tight…

[23] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [54]

[24] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 4.5 ac 8.7

> We are under very strict timelines from the Treasury…and should we not have been able to demonstrate significant progress by March, then it is possible that the derogation would have been taken away from us…"[25]

**28.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ystyried canlyniadau peidio â bwrw ymlaen yn ddigonol â'r ddeddfwriaeth hon cyn i'r rhanddirymiad gan Drysorlys EM ddod i ben, ac mae'n nodi y byddai hyn yn cael effaith andwyol sylweddol ar wariant cyfalaf Llywodraeth Cymru.[26]

**29.** Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

> "We were focused on allowing the sector to be able to borrow. The consequences of not fixing this were catastrophic for the sector…that has been our focus, as opposed to making this a consolidation and administrative Bill… I simply don't believe that it would have been possible to do that kind of work to be able to introduce it in October."[27]

## Ein barn

**30.** Rydym yn nodi'r cyfyngiadau amser ar gyfer paratoi'r ddeddfwriaeth hon fel y'u disgrifiwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r angen iddi fodloni'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Serch hynny, yn ein barn ni, nid yw'r Gweinidog wedi egluro'n briodol pam nad oedd digon o amser i baratoi Bil Cydgrynhoi.

**31.** Fel y nodwyd ym mhapur ymgynghori Llywodraeth Cymru, daeth Llywodraeth y DU, sy'n gweithredu dros Loegr, yn ymwybodol o'r mater hwn yn 2015.[28] Rydym yn tybio y daeth Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r mater bryd hynny hefyd.

**32.** Mewn tystiolaeth i Is-bwyllgor y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynglŷn â rhanddirymiad Trysorlys EM, nodwn fod un o swyddogion Llywodraeth Cymru yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi cael sicrwydd, cyhyd â'i bod hi'n amlwg ei bod yn bwrw ymlaen â'r Bil, yna byddai modd ymestyn hynny gan o leiaf 12 mis arall.[29]

---

[25] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [58-59]

[26] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 8.7-8.12.

[27] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [61]

[28] **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio rheoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig: y ddogfen ymgynghori**

[29] Is-bwyllgor y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 24 Hydref 2017, Cofnod y Trafodion [114]

**33.** Gan gofio bod y mater perthnasol yr oedd angen ymdrin ag ef yn hysbys yn 2015 a'r potensial i ymestyn y rhanddirymiad, credwn y gellid bod wedi sicrhau digon o amser i ystyried cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth yn y maes hwn.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog, yn ystod dadl Cyfnod 1, yn cyfiawnhau'r rhesymau dros gyflwyno Bil sy'n diwygio deddfwriaeth bresennol y DU yn hytrach na Bil Cydgrynhoi, annibynnol.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yn ofalus y posibilrwydd o gydgrynhoi'r gyfraith yn y maes hwn y tro nesaf y bydd cyfle i wneud hynny.

## Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.

**34.** Gofynnwyd i'r Gweinidog sut y penderfynodd beth i'w roi ar wyneb y Bil a beth i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "We tried to include as much detail on the face of the Bill as possible, and we were able to do that because the team have had, over quite some period, detailed discussions with the ONS in terms of what they are seeking to see us achieve through the Bill. So, we've put as much on the face as possible, but there are some limited regulation orders also within the Bill and those would be coming into force through secondary legislation. We think that's the appropriate place for them because the kind of circumstances under which we might wish to make those changes aren't yet known to us."[30]

**35.** Yn 2016, pasiodd Senedd y DU **Ddeddf Tai a Chynllunio 2016** i leihau lefel rheolaeth y llywodraeth ganolog dros ddarparwyr tai cymdeithasol yn Lloegr. Cyflwynodd Llywodraeth yr Alban **Fil Tai (Diwygio) yr Alban** yn Senedd yr Alban ym mis Medi 2017. Mae Deddf y DU a Bil yr Alban yn rhoi'r pŵer i'r llywodraethau priodol fynd ati i leihau lefel y rheolaeth sydd gan y llywodraeth leol drwy reoliadau yn hytrach nag ymdrin â rheolaeth y llywodraeth leol ar wyneb y ddeddfwriaeth.

**36.** Pan holwyd pam yr oedd Llywodraeth Cymru wedi dewis defnyddio deddfwriaeth sylfaenol yn hytrach na rheoliadau i ymdrin â rheolaeth y llywodraeth leol, dyma a ddywedodd y Gweinidog:

[30] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [29]

> "The reason that we have taken this approach again relates to the fact that we are very clear in terms of what the ONS wishes to see, and that what we have put on the face of the Bill very much meets that requirement. I appreciate that we have taken a slightly different approach to that taken in Scotland on this particular issue, but we think that moving forward with secondary legislation on the same issue would take up unnecessary time…and to give others and our stakeholders the confidence and the kind of detail that they need to plan ahead."[31]

**37.** Gan nodi nad oedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ei gwneud yn ofynnol i ymdrin â rheolaeth y llywodraeth leol drwy ddeddfwriaeth sylfaenol yn hytrach na thrwy reoliadau, ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru y bydd deddfwriaeth sylfaenol nid yn unig yn cyflymu'r broses, ond bydd hefyd yn ychwanegu elfen ychwanegol o dryloywder.[32]

## Ein barn

**38.** Rydym yn fodlon ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.

**39.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi dewis defnyddio deddfwriaeth sylfaenol yn hytrach na rheoliadau i ymdrin â rheolaeth y llywodraeth leol. Dymunwn ganmol y Gweinidog am sicrhau mwy o dryloywder yn y modd hwn a gobeithiwn y bydd hi a'i chydweithwyr yn dilyn trefn debyg wrth baratoi deddfwriaeth yn y dyfodol.

[31] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [47]

[32] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [50]

# 4. Sylwadau penodol ar y Bil

## Adran 6 – Diswyddo neu benodi swyddog landlord cymdeithasol cofrestredig

## Adran 8 – Penodi rheolwr ar landlord cymdeithasol cofrestredig

**40.** Mae adran 6 ac adran 8 o'r Bil yn diwygio ar ba sail y caiff Gweinidogion Cymru benodi swyddogion neu reolwr landlord cymdeithasol cofrestredig. Gellir penodi swyddog i sicrhau cydymffurfiaeth â gofyniad a osodwyd gan neu o dan ddeddfiad. Gellir penodi rheolwr pan fo Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni fod landlord cymdeithasol cofrestredig wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodwyd gan ddeddfiad neu oddi tano.

**41.** Holwyd y Gweinidog a ystyriwyd cynnwys darpariaethau yn adrannau 6 ac 8 o'r Bil ynghylch cyfyngu'r amser ar gyfer penodi swyddogion neu reolwr landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gan Weinidogion Cymru, lle y gwelwyd methiant i gydymffurfio â deddfiad. Gofynnwyd a fyddai'n gliriach nodi y bydd unrhyw benodiadau a wneir o dan adrannau 6 neu 8 o'r Bil yn dod i ben pan gydymffurfir â'r gofyniad perthnasol neu phan fydd y methiant perthnasol wedi'i ddatrys gan fodloni Gweinidogion Cymru.

**42.** Wrth ymateb, soniodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru am yr adeg y daw'r Ddeddf i rym, ac nid am ba gyfnod o amser y gellir penodi swyddogion neu reolwr o dan adrannau 6 ac 8 o'r Bil.[33]

## Ein barn

**43.** Mae'n bosibl y gallai'r landlord cymdeithasol cofrestredig fod yn gweithredu'n ddigonol a'r swyddog neu reolwr a benodwyd gan Weinidogion Cymru yn parhau yn ei swydd. Felly, credwn y dylai'r Bil bennu terfynau amser fel bod unrhyw benodiadau a wneir o dan adrannau 6 neu 8 yn dod i ben pan gydymffurfir â'r gofyniad perthnasol neu pan fydd y methiant perthnasol wedi'i ddatrys gan fodloni Gweinidogion Cymru.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant er mwyn nodi ar wyneb y Bil y bydd unrhyw benodiadau a wneir o dan adrannau 6 neu 8 yn dod i ben pan gydymffurfir â'r gofyniad perthnasol neu phan fydd y methiant perthnasol wedi'i ddatrys gan fodloni Gweinidogion Cymru.

[33] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [71-72]

## Adran 13 – Gwaredu tir: cydsyniad

**44.** Mae adran 13 o'r Bil yn diddymu adran 81 o **Ddeddf Tai 1988**, sy'n gymwys i Gymru a Lloegr.

**45.** Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'n gliriach nodi ar wyneb y Bil mai dim ond mewn perthynas â Chymru y diddymir adran 81. Dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n credu bod y cyfeiriad at Loegr eisoes wedi'i ddileu gan fod Lloegr yn mynd i'r afael â'r mater penodol hwn, ac felly mae angen hepgor adran 81 o *Ddeddf Tai 1988* yn gyfan gwbl.[34]

## Ein barn

**46.** Mae Adran 81 o *Ddeddf Tai 1988* yn dal i gynnwys cyfeiriadau at Loegr. Rydym o'r farn y dylid ei gwneud yn glir bod adran 13 o'r Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol drwy nodi'n glir mai dim ond mewn perthynas â Chymru y mae adran 81 o *Ddeddf Tai 1988* yn cael ei diddymu.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 13(2) o'r Bil i'w gwneud yn glir mai dim ond mewn perthynas â Chymru y mae adran 81 o *Ddeddf Tai 1988* yn cael ei diddymu.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ceisio cadarnhad gan Lywodraeth y DU ynghylch yr amserlenni ar gyfer dileu cyfeiriadau at Loegr yn *Neddf Tai 1988*.

## Atodlen 2 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

**47.** Yn ôl y Nodiadau Esboniadol, mae Atodlen 2 i'r Bil yn nodi'r mân ddiwygiadau a'r diwygiadau canlyniadol y bydd angen eu gwneud i ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r darpariaethau eraill a gyflwynir yn y Bil hwn.[35]

**48.** Ni fydd paragraff 9 o Atodlen 2 i'r Bil yn angenrheidiol pan ddaw'r **Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)** i rym, gan fod y Bil hwnnw'n diddymu adran 16 o *Ddeddf Tai 1996*. Pan ofynnwyd a fydd yr holl ddarpariaethau yn y Bil yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau cysondeb â'r *Bil*

[34] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [91]

[35] Y Memorandwm Esboniadol, Atodiad 2: Nodiadau Esboniadol, paragraff 127

*Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)* unwaith y bydd y Bil hwnnw mewn grym, ymrwymodd y Gweinidog i gynnal adolygiad o'r fath.[36]

**49.** Mae paragraff 13 o Atodlen 2 i'r Bil yn mewnosod y geiriau "'notify' means notify in writing" yn adran 63 o *Ddeddf Tai 1996* "yn y man priodol". Gofynnwyd i'r Gweinidog a ddylid diwygio paragraff 13 o'r Bil i'w gwneud yn gliriach ble y dylid mewnosod y geiriau hyn. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym:

> "…the notification requirements inserted by the Bill are inserted into the Housing Act 1996, and there's already a definitions section in there that says '"notice" means notice in writing', but the wording in our notifications sections just says they have to notify the Welsh Ministers. So, it's just to round it off, really, to say that 'notify' also means 'notify in writing'. So, it will apply to the notification provisions as set out in the Bill."[37]

## Ein barn

**50.** Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i adolygu holl ddarpariaethau'r Bil er mwyn sicrhau cysondeb â *Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)* unwaith y bydd y Bil hwnnw mewn grym. Byddem yn disgwyl i'r Gweinidog gynnal adolygiad o'r fath cyn gynted â phosibl er mwyn gallu archwilio'r ddeddfwriaeth hon yn llawn.

**51.** Er mwyn sicrhau eglurder, rydym o'r farn y dylid nodi yn y Bil ble yn union y dylid mewnosod y diffiniad o "hysbysu".

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant fel ei bod yn glir ar wyneb y Bil bod y diffiniad newydd o "notify" i'w fewnosod yn adran 63 o *Ddeddf Tai 1996* ar ôl y diffiniad o "notice" a chyn y diffiniad o "public sector landlord".

---

[36] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [86]

[37] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [88]

# 5. Sylwadau ar bwerau penodol i wneud is-ddeddfwriaeth

## Y cefndir

**52.** Mae'r Bil yn cynnwys pedwar pŵer sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (ar ffurf rheoliadau yn bennaf). Mae'r rhesymeg ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn, ac ar gyfer gweithdrefn y Cynulliad sy'n gysylltiedig â hwy, i'w gweld ym mhumed bennod y **Memorandwm Esboniadol**. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dogfen yn amlinellu **bwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth** a wneir o dan y Bil.

**53.** O'r pedwar pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth:

- mae un yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol neu gadarnhaol yn dibynnu a yw'r rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ynteu is-ddeddfwriaeth;
- mae dau yn cael eu mewnosod yn *Neddf Tai 1996* ac yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol; ac
- nid yw un yn ddarostyngedig i weithdrefn – y pŵer i wneud gorchmynion cychwyn.[38]

**54.** Mae'r Bil hefyd yn mewnosod yn *Neddf Tai 1996* dau bŵer i wneud cyfarwyddydau nad ydynt yn destun unrhyw weithdrefn.[39]

**55.** Roedd ein sesiwn graffu yn canolbwyntio ar y pwerau hynny a oedd o'r diddordeb mwyaf i ni ac mae ein hystyriaeth isod yn cyfeirio at faterion penodol yr ydym am dynnu sylw'r Cynulliad Cenedlaethol atynt.

## Adran 5 – Cyfarwyddydau ynghylch hysbysiadau sydd i'w rhoi i Weinidogion Cymru

## Adran 14 – Gwaredu tir: hysbysu

**56.** Mae Adran 5 o'r Bil yn mewnosod paragraff 13 newydd yn Atodlen 1 i *Ddeddf Tai 1996*. Mae hyn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ynghylch yr agweddau technegol ac ymarferol ar unrhyw hysbysiadau a roddir gan landlordiaid cymdeithasol

---

[38] Y Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalennau 13-14

[39] Y Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 15

cofrestredig i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â newidiadau cyfansoddiadol neu strwythurol i landlord cymdeithasol cofrestredig.[40]

**57.** Mae Adran 14 o'r Bil yn mewnosod adran 9(3) newydd yn *Neddf Tai 1996* ac yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddydau i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ynghylch agweddau technegol ac ymarferol ar unrhyw hysbysiadau a roddir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â gwarediadau tir penodol gan landlord cymdeithasol cofrestredig.[41]

**58.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad oes unrhyw weithdrefn Cynulliad Cenedlaethol wedi'i gymhwyso i'r cyfarwyddydau hyn.[42] Hefyd, nid yw'n ofynnol eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

**59.** Nid yw'r diffiniad o "deddfiad" yn cynnwys cyfarwyddydau yn benodol. Felly, ni nodir yn glir y byddai cyfarwyddydau o'r fath yn "ddeddfiad", y byddai methu â chydymffurfio â hwy yn arwain at hysbysiad gorfodi neu gosb.

**60.** O gofio pwysigrwydd cynnwys y cyfarwyddydau hyn i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'n briodol cymhwyso gweithdrefn graffu'r Cynulliad Cenedlaethol i'r cyfarwyddydau hyn. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

> "The directions are going to be very narrow in scope and will only be issued to RSLs. Their content is limited to the delivery, form and content of the notification and the deadline for giving notification. Therefore, they are very administrative in nature. It's appropriate for directions—and we've commonly found that directions aren't subject to any Assembly procedure because they are so administrative. That's consistent with other direction-making powers in the Housing Act 1996, which obviously these are going into, but also in wider legislation."[43]

## Ein barn

**61.** Yn ein barn ni, o ystyried pwysigrwydd y cyfarwyddydau hyn (oherwydd y gallai methu â chydymffurfio arwain at hysbysiad gorfodi neu gosb bosibl) ac er mwyn sicrhau tryloywder, byddem am weld unrhyw gyfarwyddyd o'r fath yn cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o fewn 14 diwrnod i roi'r cyfarwyddyd.

---

[40] **Datganiad ar fwriad polisi'r Bil**

[41] **Datganiad ar fwriad polisi'r Bil**

[42] Y Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 15

[43] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [45]

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i orfodi Gweinidogion Cymru, o fewn 14 diwrnod ar ôl rhoi cyfarwyddyd o dan adran 5 neu 14, i sicrhau bod testun y cyfarwyddyd yn cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â datganiad ysgrifenedig i egluro pwrpas y cyfarwyddyd.

## Adran 18 – Pŵer i wneud diwygiadau bellach

**62.** Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn datgan bod adran 18 yn darparu y gall Gweinidogion Cymru wneud diwygiadau canlyniadol at ddiben rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaethau a nodir yn y Bil.[44]

**63.** Mae adran 18(1) o'r Bil yn cynnwys pŵer Harri'r VIII (lle defnyddir rheoliadau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol) ac mae'n darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth o'r fath sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad  y maent yn ystyried ei bod yn briodol o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Bil hwn, neu oddi tano, neu at ddiben rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Bil hwn neu oddi tano.

**64.** Mae Adran 18(4) yn darparu, lle y gwneir rheoliadau o dan adran 18(1) sy'n diwygio neu'n diddymu naill ai Ddeddf (neu Fesur) y Cynulliad neu Ddeddf Senedd y DU (hy wrth arfer pŵer Harri'r VIII), fod y pŵer o dan adran 18(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**65.** Mae Adran 18(5) yn darparu, lle y gwneir unrhyw reoliadau eraill o dan adran 18(1) y byddent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**66.** Gofynnwyd pam nad yw'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i'r holl reoliadau a wneir o dan adran 18, p'un a ydynt yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ai peidio. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod yr adran hon yn rhoi'r pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol yn y bôn, a bod y dull hwn yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cwnsler Cyffredinol.[45]

**67.** Mewn ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus yr is-bwyllgor ar y Bil, **ysgrifennodd** Finance UK i fynegi ei bryderon bod y pŵer arfaethedig yn adran 18 yn rhy eang.

**68.** Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd hi'n fodlon ar ehangder y pwerau sy'n bodoli yn yr adran hon. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn credu bod adran 18 yn darparu pwerau digon eang i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud

[44] Y Memorandwm Esboniadol, Atodiad 2: Nodiadau Esboniadol, paragraff 113

[45] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [31]

diwygiadau a fyddai o natur ganlyniadol.[46] Ychwanegodd y Gweinidog fel a ganlyn:

> "We've had discussions as to what the appropriate wording would be in terms of section 18, and I think the concern there was that the word 'appropriate' is perhaps too wide. However, we believe that, in practical terms, it would enable us to have a reasonable and proper way to approach the consequential powers there in terms of giving effect to the purposes behind the legislation. Anything more narrow might tie our hands unnecessarily and not give us all of the options that would be required."[47]

## Ein barn

**69.** Mae Adran 18 yn cynnwys yr unig bwerau gwneud rheoliadau annibynnol yn y Bil. Rydym yn croesawu adran 18(4) o'r Bil, sy'n darparu y bydd rheoliadau, pan maent yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**70.** Fodd bynnag, os bydd y rheoliadau yn ymdrin â phwerau canlyniadol ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol, fel y nodwyd gan y Gweinidog, ystyriwn y dylid diwygio geiriad adran 18 (1) o'r Bil yn unol â hynny i ddarparu'n unig ar gyfer yr hyn sydd ei angen.

**71.** Nodwn hefyd mai diben y Bil hwn yw galluogi'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ystyried ailddosbarthu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gorfforaethau preifat anariannol. Ar ôl gwneud hyn, nid ydym yn credu y byddai angen i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau o dan adran 18 bellach.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i newid geiriad adran 18(1) o'r Bil i nodi y gellir gwneud, drwy reoliadau, unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig neu ganlyniadol sydd eu hangen ym marn Gweinidogion Cymru at ddibenion unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir yn y Bil neu unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan y Bil, mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth o'r fath, neu er mwyn rhoi effaith lawn i'r fath ddarpariaeth.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i nodi y bydd y pwerau a ddarperir gan y ddarpariaeth hon yn dod i ben ar y dyddiad y cyhoeddir cadarnhad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod

[46] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [35]

[47] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [39]

landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael eu hailddosbarthu yn gorfforaethau preifat anariannol.

## Atodlen 1 - Cyfyngiad ar aelodaeth awdurdodau lleol o fwrdd a hawliau pleidleisio

**72.** Mae Atodlen 1 i'r Bil yn cyflwyno pennod 1A newydd yn *Neddf Tai 1996*. Mae'r darpariaethau yn y bennod newydd hon yn gosod cyfyngiadau ar aelodaeth awdurdodau lleol o fwrdd a hawliau pleidleisio mewn perthynas â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

**73.** Mae Atodlen 1 i'r Bil yn mewnosod adran 7C newydd yn *Neddf Tai 1996*, sy'n ymdrin â diswyddo penodeion awdurdodau lleol i leihau eu nifer i ddim mwy na 24 y cant o fwrdd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

**74.** O dan adran 7C(3) o'r Bil, rhaid i'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ddiswyddo'r penodeion awdurdodau lleol angenrheidiol o fewn pedwar mis i'r dyddiad y daw adran 7C(5) i rym, ond ni all wneud unrhyw ddiswyddiadau yn ystod y ddau fis cyntaf o'r cyfnod o bedwar mis.

**75.** Yn ôl Adran 7C(4), yn ystod y ddau fis cyntaf, cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol fydd hi i roi gwybod i'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig pa benodeion awdurdodau lleol sydd i gael eu diswyddo. Os na wnânt hynny, mae adran 7C(6) yn caniatáu i'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ddewis penodeion sydd i'w diswyddo.

**76.** Mae Adran 7C(5) yn nodi, pan fo'r awdurdod lleol yn rhoi rhybudd o fewn y cyfnod o ddau fis, rhaid i'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ddiswyddo'r penodeion hynny. Fodd bynnag, nid yw'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn nodi y dylai'r landlord cymdeithasol cofrestredig aros nes bod y cyfnod cychwynnol o ddau fis wedi dod i ben cyn diswyddo'r penodeion a enwebwyd; mae'n nodi: "os yw awdurdod lleol yn enwebu penodeion i gael eu diswyddo, rhaid i'r penodeion hynny gael eu diswyddo".[48]

**77.** Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'n gliriach nodi ar wyneb y Bil pan ellir diswyddo penodeion awdurdodau lleol ar ôl iddynt gael eu henwebu gan yr awdurdod lleol. Ymatebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

> "…there will be two months before the provisions come into date after the commencement Act, and that will have the effect of RSLs having a six-month period to reduce the local authority appointees to 24 per cent…on the commencement date, RSLs that have more than 24 per

[48] Y Memorandwm Esboniadol, Atodiad 2: Nodiadau Esboniadol, paragraff 120

> cent local authority nominees on their board will have two months for the local authority to decide which of their nominees to remove from the board, and a further two months, then, for the RSL to decide which nominees to remove if the local authority itself fails to decide which nominees to remove."[49]

**78.** Ychwanegodd swyddog Llywodraeth Cymru fod y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sydd â dros 24 y cant o awdurdodau lleol wedi'u penodi ar eu byrddau yn ymwybodol o'r amserlenni arfaethedig.[50]

**79.** Mae Atodlen 1 i'r Bil hefyd yn mewnosod adran 7J(1) yn *Neddf Tai 1996* sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru drwy Orchymyn ddarparu nad yw darpariaethau'r bennod newydd yn gymwys i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig penodedig sy'n is-gyrff a reolir yn llwyr gan awdurdod lleol. Mae'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.[51] Mae'r datganiad ar fwriad polisi'r Bil yn nodi:

> "Defnyddir y pŵer yn unig os bydd y safbwynt presennol o ran polisi yn newid i ganiatáu i awdurdodau lleol fod yn "rhiant" i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, sy'n rhywbeth na chaniateir ar hyn o bryd. Mewn sefyllfa lle mae Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn is-gwmni dan reolaeth lwyr awdurdod lleol, ni fydd y cyfyngiadau ar ddylanwad awdurdodau lleol yn gymwys."[52]

**80.** Yn ogystal, mae Atodlen 1 i'r Bil yn mewnosod adran 7J (7) yn *Neddf Tai 1996*. Mae hyn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru drwy Orchymyn ddarparu bod landlord cymdeithasol cofresredig o ddisgrifiad penodedig yn cael ei drin fel is-gorff a reolir yn llwyr gan awdurdod lleol at ddibenion adran 7J yn gyffredinol ac unrhyw Orchymyn a wneir oddi tano. Nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol:

> "Mae hyn yn caniatáu i fodelau arloesol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a gynigir gan awdurdodau lleol gael eu cynnwys yn y diffiniad o is-gorff dan reolaeth lwyr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae'n caniatáu ar gyfer datgymhwyso'r darpariaethau sy'n cyfyngu ar

---

[49] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [75]

[50] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [81]

[51] Y Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 14

[52] **Datganiad ar fwriad polisi'r Bil**

> ddylanwad awdurdodau lleol dros y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig dan reolaeth awdurdodau lleol."[53]

**81.** Mae'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac mae'r datganiad o fwriad polisi yn awgrymu mai'r bwriad o ran defnyddio'r pwer hwn yw "i drin Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fel is-gwmni dan reolaeth lwyr awdurdod lleol, pan fo awdurdod lleol yn cynnig model y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y dylai gael ei eithrio rhag darpariaethau sy'n cyfyngu ar ddylanwad awdurdod lleol, yn unig".[54]

**82.** Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "…were we to… introduce policies in future that would be under section 7J(1) and 7J(7), then we would obviously consult on any policy change."[55]

## Ein barn

**83.** O ran adran newydd 7C o *Ddeddf Tai 1996* a nodir yn Atodlen 1, ni welwn pam y mae'n yn rhaid i landlord cymdeithasol cofrestredig aros am ddeufis cyn diswyddo penodai o'i fwrdd unwaith y bydd wedi cael gwybod pa benodeion y dylid eu diswyddo. Rydym o'r farn y gallai hyn achosi oedi ac ansicrwydd diangen.

> **Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i Atodlen 1 i'r Bil i ddileu'r geiriau "but the landlord may not remove an appointee until after the 2 month period expires" o adran 7C(3) i'w fewnosod i mewn i Ddeddf Tai 1996.

**84.** Nodwn fod y pwerau a ragnodir yn adrannau 7J(1) a 7J(7) yn dechnegol eu natur. Rydym o'r farn ei bod yn briodol i'r pwerau fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

---

[53] Y Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 14

[54] **Datganiad ar fwriad polisi'r Bil**

[55] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 20 Tachwedd 2017, Cofnod y Trafodion [33]